OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 460 (Cy.45)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*25 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*26 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 113(1) a (2) a 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), a pharagraffau 1, 2(4)(a), (e), (g), (i) a (j), 4(4) a (5) a 14(1) a (2) o Atodlen 2 iddi a pharagraffau 6(1) a (2) o Atodlen 3 iddi ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 26 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 1993" yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**).

Diwygio Rheoliadau 1993

3.—(1) Mae Rheoliadau 1993 yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 —

(a) Rhif wch y geiriad presennol yn baragraff (1),

(b) hepgorwch y diffiniad o "relevant valuation band",

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosodwch —

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) *Gweler*O.S. 1999/672, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Cymru) 1999.
(**3**) O.S. 1993/255.